

Stop it Now! Cymru Helpu i diogelu plant rhag camdriniaeth rywiol

Rhaglen atal cam-drin plant yn rhywiol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Sefydliad Lucy Faithfull yw Stop it Now! Cymru. Rydym yn gweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag cam-driniaeth rhywiol gan weithio gyda rhieni a gofalwyr, gweithwyr proffesiynol aml - asiantaeth yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd trwy godi ymwybyddiaeth ac addysg. Rydym hefyd yn cynnig llinell gymorth gyfrinachol i'r rhai sy'n pryderu am gam-driniaeth rhywiol ar 0808 1000 900.

Mae ein gwasanaethau ac adnoddau yn berthnasol i rieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol, gweithwyr gofal plant, gwirfoddolwyr, staff yr ysgol; i unrhyw un sy'n dod mewn gysylltiad â phlant yn eu bywyd personol neu broffesiynol. Rydym yn cynnig ystod o wasanaethau ac adnoddau sydd yn cynnwys amrywiaeth eang o sesiynau a chysiau.

Cyrsiau wedi eu ariannu

Parents Protect!

Sesiwn 2 awr i godi ymwybyddiaeth a rhoi gwybod i gyfranogwyr am y ffeithiau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol ac ein cyfrifoldeb ni i'w hatal.

Nifer o gyfranogwyr : Tua 10

Sesiwn yn cynnwys:

- Deall ymddygiad camdriniwr
- Sut a pham y mae pobl yn cam-drin plant yn rhywiol
- Y rhwystrau i adnabod ymddygiad niweidiol a sut i'w goresgyn
- Camau ataliol cadarnhaol – beth allwn ni ei wneud i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth rhywiol

Parents Protect! ar gyfer Plant ag Anghenion Ychwanegol

Sesiwn 2 awr i godi ymwybyddiaeth a rhoi gwybod i gyfranogwyr ar y ffeithiau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol ac ein cyfrifoldeb i'w hatal. Gyda gwybodaeth wedi'i theilwra i anghenion plant ag anghenion ychwanegol.

Nifer o gyfranogwyr : Tua 10

Sesiwn yn cynnwys:

- Deall ymddygiad camdriniwr
- Sut a pham y mae pobl yn camdrin plant yn rhywiol
- Deall faint yn fwy agored i gamdriniaeth y mae plant ag anghenion ychwanegol
- Deall a goresgyn y rhwystrau i adnabod ymddygiad niweidiol
- Camau cadarnhaol y gall oedolion eu cymryd i atal cam-drin plant yn rhywiol

Diogelwch ar y Rhyngwrwyd

Sesiwn 2 awr i addysgu ac adeiladu hyder mewn cyfranogwyr ar faterion yn ymwneud â diogelwch ar y rhyngwrwyd ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth ar-lein.

Nifer o gyfranogwyr : Tua 10

Sesiwn yn cynnwys:

- Trafodaethau am y defnydd cadarnhaol a negyddol o'r rhyngwrwyd
- Sut mae pobl yn defnyddio'r rhyngwrwyd i gam-drin plant a phobl ifanc
- Materion yn ymwneud â meithrin perthynas amhriodol ar-lein, sexting, seiberfwlio a edrych ar ddelweddau anghyfreithlon o blant
- Camau ataliol cadarnhaol y gellir eu cymryd i amddiffyn plant rhag camdriniaeth ar-lein

Datblygiad Rhywiol Plant a Pobl Ifanc

Sesiwn 2 awr i addysgu ac adeiladu hyder y cyfranogwr i ddeall yr ymddygiad a ddisgwylir o ran datblygiad iach, ag ymddygiad nid yw'n briodol a fyddai'n yn gallu achosi niwed neu gynyddu tebygrwydd plant i gael eu camdrin.

Nifer o gyfranogwyr : Tua 10

Sesiwn yn cynnwys:

- Trafodaethau ynghylch beth yw ymddygiad iach a disgwylir gan blant dan 5 oed, a rhwng 5 a 11
- Archwilio sut i ymateb i ymddygiad rhywiol pryderol mewn plant cyn-glasoed
- Archwilio materion yn ymwneud â chaniatâd ac ymddygiad rhywiol niweidiol ar gyfer plant ôl-glasoed a phobl ifanc
- Camau ataliol cadarnhaol y gellir eu cymryd i amddiffyn plant rhag ymddygiad rhywiol niweidiol

Atal Camfanteisio Plant yn Rhywiol

Sesiwn 2 awr i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut y gall camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd, beth yw'r risgiau i blant a phobl ifanc yn a pha gamau y gellir eu cymryd. Yn hanfodol, rydym yn rhoi hyder i rieni a gofalwyr ofyn am gymorth ac i gymryd camau os bydd angen.

Nifer o gyfranogwyr : Tua 10

Sesiwn yn cynnwys:

- Y ffeithiau am gam-drin rhywiol a cham-fanteisio. Beth yw'r rhain, a sut y gall hyn ddigwydd
- Sut y mae camdrinwyr yn meithryn perthynas amhriodol gyda eu dioddefwyr, a pam nad yw dioddefwyr yn siarad am yr hyn sy'n digwydd
- Adnabod yr arwyddion yn ymddygiad plentyn, a allai awgrymu eu bod wedi cael, neu yn cael eu, cam-drin neu eu hecsbloetio'n rhywiol
- Sut y gall y rhyngwyd gael ei ddefnyddio gan y rhai sydd eisiau cam-drin yn rhywiol neu ecsbloetio plentyn neu berson ifanc
- Camau cadarnhaol - beth allwn ni ei wneud i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cam-drin rhywiol a cham-fanteisio
- Gweithredu ar bryderon - beth allwn ni ei wneud os oes gennym pryder, gan gynnwys ffynonellau gwybodaeth, cymorth a chynghor

Cyrsiau Parents Protect Plus!

Cyrsiau i addysgu ac adeiladu hyder rhieni a gofalwyr ar faterion yn ymwneud ag atal cam-driniaeth rhywiol o blant, diogelwch ar y rhyngwyd, deall datblygiad rhywiol iach mewn plant a phobl ifanc, a chamau ataliol cadarnhaol. Mae'r cyrsiau yn para 5 wythnos, ac yn cynnwys sesiynau dwy awr yr wythnos.

Nifer o gyfranogwyr : Tua 10

Sesiwn yn cynnwys:

- Nodi rhesymau pam mae pobl yn cam-drin plant yn rhywiol
- Gwybod am y dewisiadau sydd ar gael i gymryd camau os pryderon yn codi y gallai plentyn fod yn cael ei gam-drin yn rhywiol
- Cydnabod yr ymddygiadau rywun sydd yn bwriadu i gam-drin plentyn yn rhywiol
- Archwilio agweddau ar ddiogelwch ar y rhyngwyd
- Deall oedran disgwylidig datblygiad rhywiol ac ymddygiad iach mewn plant a phobl ifanc
- Ymwbyddiaeth o'r camau amddiffynnol gallwch eu cymryd i atal cam-drin plant yn rhywiol

Professionals Protect!

Sesiwn 2 awr i godi ymwybyddiaeth a rhoi gwybod i gyfranogwyr y ffeithiau ynghylch cam-driniaeth plant yn rhywiol ac ein cyfrifoldeb i'w hatal. Rhannu gwybodaeth a thynnu sylw at sut y gall cyfranogwyr gymryd camau ataliol o fewn eu rolau proffesiynol.

Nifer o gyfranogwyr : Tua 15

Sesiwn yn cynnwys:

- Deall ymddygiad camdriniwr
- Sut a pham y mae pobl yn cam-drin plant yn rhywiol
- Y rhwystrau i adnabod ymddygiad niweidiol a sut i eu goresgyn
- Camau ataliol cadarnhaol - beth allwn ni ei wneud i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth rhywiol

Professionals Protect! Cyrsiau Uwch

Cyrsiau i addysgu ac adeiladu hyder mewn gweithwyr proffesiynol ar faterion yn ymwneud ag atal cam-driniaeth rhywiol o blant, diogelwch ar y rhyngwyd, deall datblygiad rhywiol iach mewn plant a phobl ifanc a chamau ataliol cadarnhaol. Mae'r cwrs yn para 8 awr i gyd, naill ai mewn un diwrnod neu ei rannu'n sesiynau.

Nifer o gyfranogwyr : Uchafswm o 20

Cost: a awgrymir rhodd o £500 y cwrs

Sesiwn yn cynnwys:

- Cam-drin rhywiol ar blant, y risg, pwy sy'n achosi niwed rhywiol a sut mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd
- Deall datblygiad ac ymddygiad rhywiol mewn plant cyn ac ar ôl glasod
- Deall camfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc
- Diogelwch ar y rhyngwyd a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein
- Camau gweithredu ataliol cadarnhaol y gall oedolion eu cymryd i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth rhywiol.

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth pwrpasol

Os hoffai eich sefydliad elwa o gwrw wedi'i deilwra, byddwn yn hapus i ddylunio sesiynau penodol ar gyfer eich anghenion. Cysylltwch â Gill Jones i drafod ar 07803 629628

I archebu unrhyw sesiwn neu gwrw

Cysylltwch â Gill Jones | gjones@stopitnow.org.uk | 07803 629628

www.parentsprotect.co.uk www.lucyfaithfull.org.uk www.stopitnow.org.uk

Gweithgareddau arall Stop it Now! Cymru Presenoldeb mewn cynadleddau: Rydym yn gallu darparu cyflwyniadau, gweithdai a seminarau mewn cynadleddau cenedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru sydd wedi eu trefnu gan ein partneriaid strategol.
Stondinau gwybodaeth: rydym yn awyddus i ddarparu stondinau gwybodaeth neu adnoddau mewn digwyddiadau proffesiynol neu gymunedol ar draws Cymru. **Tafenni a phosteri:** ystod eang o bosteri a thafenni ar gael i'w defnyddio gan aelodau'r cyhoedd ac ymarferwyr. Ewch i www.stopitnow.org.uk i weld. I wneud cais am gopïau cyswllt â wales@stopitnow.org.uk



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government